# Croeso...

## i Gynllun Taliadau Uniongyrchol Sir y Fflint



| **Cynnwys** | **Tudalen 2** |
|---|---|
| Cychwyn Arni | 3 |
| Cefnogaeth gyda Thaliadau Uniongyrchol | 4 |
| Rheoli eich Taliadau Uniongyrchol | 5 |
| Pwy all gael Taliad Uniongyrchol? | 5 |
| Eich Cyfrif Banc Taliadau Uniongyrchol | 6 |
| Defnyddio eich Taliad Uniongyrchol yn Greadigol | 6 |
| Sut i ganfod y Cynorthwy-ydd Personol cywir | 7 |
| Prynu Cymorth gan Asiantaeth Gofal | 7 |
| Defnyddio Darparwr Meicro-Ofal | 7 |
| Monitro sut mae eich Taliadau Uniongyrchol yn Gweithio | 8 |
| Os oes gennych unrhyw Bryderon am Sut rydych yn cael eich Trin | 8 |
| Cwynion a Chanmoliaethau | 9 |
| Cysylltiadau | 10 |

## *Cychwyn Arni*

Nod y Canllaw Croeso hwn yw eich helpu i ddeall sut gallwch ddefnyddio eich taliadau uniongyrchol i fodloni eich anghenion a aseswyd am gymorth a chefnogaeth. Mae'n egluro eich dewisiadau, eich cyfrifoldebau a'r gefnogaeth sydd ar gael i'ch helpu i sefydlu, rheoli a chynnal eich taliadau uniongyrchol, cyn hired ag y byddwch yn parhau i ddefnyddio taliad uniongyrchol.

Mae taliadau uniongyrchol yn arian gan Wasanaethau Cymdeithasol Sir y Fflint sydd ar gael i bobl gymwys i'w galluogi i drefnu cymorth ac atebion sy'n helpu i ddiwallu anghenion gofal cymdeithasol a aseswyd a chanlyniadau llesiant y cytunwyd arnynt.

Byddai'r mwyafrif ohonom yn cytuno bod cael dewis yn ein bywyd bob dydd, beth rydym yn bwyta, lle rydym yn mynd, a sut rydym yn gwario ein pres yn bwysig, ac yn ein gwneud yn unigol, ac yn rhoi'r rhyddid i ni fyw ein bywydau yn y modd rydym yn ei ddewis. Mae'n gwneud synnwyr felly, os oes arnoch angen cefnogaeth ychwanegol i fyw eich bywyd, y dylech allu dewis sut mae hyn yn cael ei ddarparu, gan bwy, a phryd.

Gall taliadau uniongyrchol gynnig mwy o hyblygrwydd, dewis a rheolaeth na chefnogaeth a drefnwyd i chi gan yr awdurdod lleol. Er enghraifft, efallai byddwch yn dewis cyflogi eich Cynorthwy-ydd Personol eich hun, a fyddai'n darparu cefnogaeth gan unigolyn yr ydych wedi eu dewis, ar adeg sy'n gyfleus i chi. Efallai y byddwch yn dewis prynu eich cefnogaeth gan asiantaeth gofal o'ch dewis chi, neu gan ddarparwr meicro-ofal. Efallai y byddwch yn dymuno canfod dewis amgen i'r mathau o ofal seibiant sy'n cael eu cynnig gan y Cyngor. Gallwch ystyried sut mae eich anghenion yn cael eu bodloni mewn ystod o ffyrdd creadigol, a chyfuno eich taliadau uniongyrchol gyda phobl eraill os ydych chi'n dewis hynny. Ychydig iawn o gyfyngiadau sydd i'r mathau o atebion y gallwch eu hariannu. Yr oll sydd arnom ei angen yw bod y cyllid yn cael ei ddefnyddio i fodloni eich anghenion a aseswyd a'r canlyniadau y cytunwyd arnynt, a bod y datrysiadau yn cael eu cynllunio gyda, a'u cymeradwyo gan Wasanaethau Cymdeithasol Sir y Fflint.

Os yw eich datrysiadau dewisol yn ddiogel ac yn gyfreithiol, gellir defnyddio'r Taliadau Uniongyrchol mewn amryw o ffyrdd creadigol ac arloesol. Y peth pwysicaf yw, eich bod yn gallu bodloni eich anghenion a aseswyd ar gyfer gofal a chefnogaeth yn eich ffyrdd dewisol, eich bod yn mwynhau cyfleoedd ac annibyniaeth gwell, ac yn gallu bwrw 'mlaen gyda'ch bywyd.

Mae Gwasanaeth Cefnogi Taliadau Uniongyrchol Sir y Fflint wedi cynhyrchu ystod o wybodaeth sy'n ymwneud â thaliadau uniongyrchol a luniwyd i roi gwybodaeth berthnasol i chi a'ch helpu i wneud penderfyniadau sy'n iawn i chi. Bydd eich Swyddog Taliadau Uniongyrchol dynodedig yn trafod y wybodaeth hon a'r dewisiadau sydd ar gael i chi ac yn darparu cymorth priodol ar bob cam.

Gallwch hefyd gael mynediad at amrywiaeth o wybodaeth ddefnyddiol ar ein gwefan, felly ewch i:

https://www.siryfflint.gov.uk/cy/Resident/Social-Services/Direct-Payments/Home.aspx

Cofiwch fod cefnogaeth ar gael gan y Gwasanaeth Cefnogi Taliadau Uniongyrchol ar bob cam o'r broses hon, felly os oes gennych chi unrhyw gwestiynau, cysylltwch â'r tîm:

Rhif Ffôn: 01352 701100

E-bost: dp.support@flintshire.gov.uk

---

## *Cefnogaeth gyda Thaliadau Uniongyrchol*

---

Mae Gwasanaethau Cymdeithasol Sir y Fflint wedi buddsoddi mewn gwasanaeth cefnogi taliadau uniongyrchol arbenigol, mewnol. Diben y gwasanaeth yw cydweithio gyda'r bobl sydd un ai'n ystyried derbyn taliad uniongyrchol neu sydd wedi dewis i drefnu eu gofal a'u cefnogaeth gan ddefnyddio taliad uniongyrchol. Nod y tîm yw helpu pobl i ennill y gwybodaeth a'r hyder i allu rheoli eu trefniadau'n well, cael y canlyniadau gorau posib allan o'r cyllid sydd ar gael, a bwrw 'mlaen gyda byw bywyd gyda'r gefnogaeth y maent eu hangen.

Gyda'r wybodaeth angenrheidiol a'r gefnogaeth gywir, mae sawl un sy'n derbyn taliad uniongyrchol yn rheoli eu cyfrifoldebau gydag ychydig iawn o gyfranogiad gan y gwasanaeth cefnogi; efallai bydd rhai angen ychydig mwy o help a chanllawiau, gydag eraill angen cefnogaeth a chysur parhaus.

Bydd y tîm taliadau uniongyrchol yn gweithio gyda chi i geisio sicrhau eich bod yn cael y lefel gywir o gefnogaeth. Nid ydym eisiau creu teimlad o ormod o gefnogaeth, felly byddwn yn eich annog, ac yn eich cefnogi chi i fod mor hunan-reolaethol â phosib bob amser.

Beth bynnag yw eich anghenion o ran cefnogaeth, mae'r tîm taliadau uniongyrchol ar ben arall y ffôn.

Dyma ychydig o'r pethau allweddol y byddwn yn eu gwneud:

- Trefnu bod aelod wedi'i benodi o'r tîm yn cwrdd â chi wyneb yn wyneb, pryd bynnag fo'n bosibl er mwyn cyflwyno ein hunain, rhoi gwybodaeth i chi, ac ateb

unrhyw gwestiynau cychwynnol gennych.

- Eich helpu chi ystyried sut y byddwch yn ddefnyddio eich taliadau uniongyrchol, a sut y gall hyn fod o fudd i'ch bywyd, a'r pethau sydd o bwys i chi.

- Trafod sut yr hoffech gael eich cefnogi, y mathau gorau o ohebiaeth i chi, ac a oes unrhyw aelodau o'r teulu neu ffrindiau yr hoffech eu cynnwys.

- Cytuno ar y camau nesaf, a beth fydd bob un ohonom yn ei wneud.

- Os ydych chi'n dewis cyflogi Cynorthwywyr Personol i ddarparu gofal a chefnogaeth, byddwn yn esbonio ein dull o recriwtio cam wrth gam, a sut byddwn yn eich cefnogi chi i recriwtio'r unigolyn cywir yn ddiogel.

Nid yw dewis trefnu eich gofal a chymorth eich hun trwy daliad uniongyrchol yn golygu bod rhaid i chi wneud popeth eich hun. Mae'r Gwasanaeth Cefnogi Taliadau Uniongyrchol eisiau i chi gael y canlyniadau gorau o'ch arian, a byddwn yno gyda chi bob cam o'r ffordd.

---

## *Rheoli eich Taliadau Uniongyrchol*

---

Pan fyddwch yn dechrau defnyddio taliadau uniongyrchol byddwch angen gwybod sut fyddwch yn derbyn yr arian, gwneud taliadau ar gyfer y gwasanaethau yr ydych yn eu defnyddio, talu eich Cynorthwywyr Personol a thalu unrhyw gostau cysylltiedig megis cyflogau neu filiau Asiantaeth Gofal.

Rydym wedi gweithio'n galed dros y blynyddoedd i wneud eich taliad uniongyrchol mor syml â phosib. Nid oes llawer o waith papur erbyn hyn, a gall pobl ddewis lefel y cyfranogiad maent yn eu cael dros reoli'r arian.

I rai, gall rheoli taliadau uniongyrchol deimlo fel tasg anodd iawn i ddechrau, ond byddwn yn sicrhau bod eich cyllid yn cael ei osod yn gywir i chi, ac nid fydd ein cefnogaeth yn dod i ben nes eich bod yn hyderus fod popeth yn gweithio i chi.

Bydd eich swyddog cefnogi taliadau uniongyrchol yn esbonio'r dewisiadau'n fanylach ac yn eich helpu chi i osod pethau, felly peidiwch â phoeni.

---

## *Pwy all gael Taliad Uniongyrchol?*

---

Os ydych chi wedi derbyn asesiad gan Wasanaethau Cymdeithasol Sir y Fflint fel rhywun sydd angen gofal a chefnogaeth ychwanegol i fyw eich bywyd, ac yn gymwys ar gyfer

cymorth ariannol tuag at hyn, yna gallwch ddewis i dderbyn taliad uniongyrchol. Mae hyn yn golygu y gallwch dderbyn yr arian yn uniongyrchol a dechrau i drefnu'r mathau o gefnogaeth sy'n eich gweddu chi.

Os ydych chi'n derbyn gofal a chefnogaeth a drefnwyd gan y Cyngor, ac yn teimlo y byddai rhywbeth mwy pwrpasol, neu bersonol yn gwella'r ffordd rydych yn byw, yna gallwch ddewis i symud i daliad uniongyrchol unrhyw bryd.

Gall Gofalwyr Di-dâl dderbyn taliad uniongyrchol hefyd, os yw asesiad o'u anghenion fel Gofalwr wedi cael ei gwblhau, a chytunir bod angen cefnogaeth a ariennir.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau, neu fod angen eglurhad pellach arnoch yn ymwneud â chymhwysedd i dderbyn taliadau uniongyrchol, cysylltwch ag aelod o'r Tîm Taliadau Uniongyrchol.

## *Eich Cyfrif Banc Taliadau Uniongyrchol*

Yn Sir y Fflint, rydym wedi cydweithio â chwmni o'r enw EML. Maent yn arweinwyr yn y maes o ddatblygu datrysiadau talu. Mae Gwasanaeth Cymdeithasol Sir y Fflint yn prynu system cyfrif cerdyn hawdd ei ddefnyddio, er mwyn helpu pobl i reoli eu taliadau uniongyrchol. Pan mae taliad uniongyrchol yn cael ei sefydlu, mae Gwasanaethau Cymdeithasol Sir y Fflint yn darparu cyfrif er mwyn talu'r arian iddo bob pedair wythnos. Rydych yn defnyddio'r cyfrif yn benodol er mwyn talu'r biliau y cytunwyd arnynt, sy'n gysylltiedig â'ch taliad uniongyrchol.

Oherwydd bod y cyfrif hwn yn cael ei fonitro gan Wasanaethau Cymdeithasol Sir y Fflint o bryd i'w gilydd, nid oes angen i chi ddarparu unrhyw wybodaeth monitro ariannol i'r Cyngor. Mae hyn hefyd yn golygu, os oes problem, gallwn rewi eich cyfrif yn syml, neu os oes angen arian ychwanegol, gallwn dalu'r swm i mewn i'r cyfrif.

Mae'r system yn lleihau gwaith papur ac yn eich galluogi chi i ganolbwyntio ar fyw eich bywyd gyda'r gefnogaeth yr ydych wedi'i threfnu.

## *Defnyddio eich Taliad Uniongyrchol yn Greadigol*

Rydym eisiau i chi gael y canlyniadau gorau posib o'ch taliadau uniongyrchol.

Er mwyn eich helpu i ddefnyddio eich taliadau uniongyrchol yn effeithiol, byddwn yn meddwl am y gwahanol ffyrdd y gallwch ddewis defnyddio'r arian sydd ar gael.

Bydd hyn er mwyn eich helpu chi i fodloni eich anghenion gofal cymdeithasol a aseswyd

a chyflawni'r canlyniadau sy'n bwysig i chi, ac sydd wedi'u cymeradwyo gan Wasanaethau Cymdeithasol Sir y Fflint bob amser. Efallai bydd hyn yn golygu prynu cyfarpar, neu dechnoleg a fyddai o gymorth i chi, trefnu gweithgaredd, cyfuno cyllid gyda phobl eraill, neu greu cyfle i chi ddatblygu sgiliau, ac ati. Bydd pob datrysiad yn bersonol i chi, ac mae'r rhestr o bosibiliadau'n ddiddiwedd.

## *Sut i ganfod y Cynorthwy-ydd Personol cywir*

Bydd Gwasanaeth Cefnogi Taliadau Uniongyrchol Sir y Fflint yn eich cefnogi i ddod o hyd i Gynorthwy-ydd Personol sy'n eich gweddu chi. Efallai fod gennym rywun ar ein Porth o Gynorthwywyr Personol a fyddai'n yn addas a/neu gallwn eich helpu i recriwtio rhywun. Rydym yn aml yn defnyddio safleoedd chwilio am swyddi megis Indeed, a all eich helpu i recriwtio'n lleol neu dros y cyfryngau cymdeithasol, neu efallai byddwch yn ystyried recriwtio o fannau eraill y mae gennych gyswllt â nhw.

Efallai eich bod eisoes yn adnabod rhywun, fel aelod o'r teulu, ffrind neu gymydog a hoffai fod yn Gynorthwy-ydd Personol i chi. Yn dibynnu ar eich amgylchiadau, efallai y byddwch yn dewis cyflogi aelod o'r teulu sy'n byw gyda chi.

## *Prynu Cymorth gan Asiantaeth Gofal*

I gael rhagor o wybodaeth ar Asiantaethau Gofal, ewch i wefan Arolygiaeth Gofal Cymru **https://www.arolygiaethgofal.cymru/** neu gofynnwch i'ch Gweithiwr Cymdeithasol am restr o asiantaethau lleol sydd wedi'u cynnwys yn fframwaith darparwyr gofal y Cyngor.

Gall y gwasanaeth cefnogi taliadau uniongyrchol ddarparu rhestr o Asiantaethau Gofal hefyd. Efallai bydd y rhestr hon yn cynnwys Darparwyr Gofal sydd wedi'u cofrestru gydag Arolygiaeth Gofal Cymru, ond sydd wedi dewis peidio ymuno â fframwaith darparwyr gofal y Cyngor.

## *Defnyddio Darparwr Meicro-ofal*

Mae meicro-ofalwyr yn fasnachwyr unigol hunangyflogedig neu'n gwmnïau bach o ddim mwy na pedwar gweithiwr hunangyflogedig unigol. Mae meicro-ofalwyr yn darparu gofal a chefnogaeth i bobl sy'n byw yn eu cartrefi eu hunain i fodloni eu hanghenion a aseswyd, ac i helpu gyflawni ar eu canlyniadau y cytunwyd arnynt.

Gan fod meicro-ofalwyr yn hunangyflogedig, maent yn talu eu treth a'u Hyswiriant Gwladol eu hunain, felly nid oes angen gwasanaethau cyflogau, yswiriant na chefnogaeth cyflogaeth.

Tra bo hyn yn ymddangos yn apelgar, a gall fod yn ddewis da ar gyfer rhai pobl, mae hunangyflogaeth yn benodol i sefyllfa, felly cyn i chi ddewis defnyddio unrhyw un sy'n honni i fod yn hunangyflogedig, mae'n rhaid i chi fodloni eich hun na fyddant yn cael eu hystyried i fod wedi'u cyflogi os yw unrhyw beth yn mynd o'i le.

Gall meicro-ofalwyr fod yn ddewis da i rai, felly os hoffech ragor o wybodaeth, trafodwch hyn gyda'r tîm taliadau uniongyrchol.

## *Monitro sut mae eich Taliadau Uniongyrchol yn Gweithio*

Mae'n rhaid defnyddio eich taliad uniongyrchol mewn ffyrdd sy'n bodloni eich anghenion gofal a chefnogaeth a aseswyd a'r canlyniadau y cytunwyd arnynt. Dylid ysgrifennu'r rhain yn y Cynllun Gofal a Chefnogaeth y cytunoch chi arno, a'i lofnodi gyda'ch Gweithiwr Cymdeithasol.

Bydd y Cyngor yn adolygu sut mae eich cefnogaeth yn gweithio i sicrhau ei fod, ac yn parhau i fodloni ei ddibenion a fwriedir. Fel arfer, bydd hyn yn digwydd ar ôl 6 wythnos, ac yna un ai bob 6 neu 12 mis wedi hynny.

Oherwydd bod taliadau uniongyrchol yn arian cyhoeddus, mae gofyn i'r Cyngor wirio eich bod yn parhau i wario'r taliad uniongyrchol fel y'i bwriedir. Mae archwiliadau o'ch cyfrif yn gymesur a byddant yn cael eu cynnal yn rheolaidd dros y 6 mis cyntaf. Caiff adolygiadau monitro parhaus eu cynnal bob 3, 6, neu 12 mis, yn dibynnu ar yr arian sy'n gysylltiedig, yn ogystal â ffactorau risg eraill.

Os oes problemau yn cael eu nodi yn ystod yr adolygiadau monitro, byddwn yn eu trafod gyda chi cyn gynted â phosib, a thrafod ffyrdd i'w datrys.

Os ydych chi'n ei chael hi'n anodd rheoli'r arian, byddwn yn argymell yn gryf eich bod yn cysylltu â'r tîm taliadau uniongyrchol cyn gynted â phosib fel ein bod yn gallu cynnig cefnogaeth a chanllawiau.

## *Os oes gennych unrhyw Bryderon am Sut rydych yn cael eich Trin*

Os ydych chi'n amau eich bod yn cael eich cam-drin neu eich esgeuluso gan rywun, yn cynnwys unrhyw Gynorthwywr Personol rydych yn eu cyflogi, mae'n bwysig iawn eich bod yn dweud wrth rhywun ar unwaith.

Ffoniwch y Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion ar 03000 858858, neu'r Gwasanaethau Cymdeithasol i Blant ar 01352 701000. Dylech ffonio'r Heddlu hefyd, neu siarad â rhywun rydych yn ymddiried ynddynt.

Fel arall, gallwch siarad gyda'r tîm taliadau uniongyrchol yn gyfrinachol.

## *Cwynion a Chanmoliaethau*

Nod Gwasanaeth Cefnogi Taliadau Uniongyrchol Sir y Fflint yw darparu gwasanaeth cyson o safon uchel i breswylwyr Sir y Fflint sy'n dewis trefnu eu gofal a chefnogaeth drwy ddefnyddio taliadau uniongyrchol.

Rydym yn ymdrechu'n barhaus i wella'r gwasanaethau rydym yn eu darparu, felly rhowch wybod i ni beth rydym ni'n ei wneud yn dda a sut y gallwn wella.

Os ydych chi'n anhapus gyda'r gwasanaeth rydych wedi'i dderbyn, byddwn yn gwrando ar eich cwyn neu bryder, ac yn anelu at fynd i'r afael ag o'n gyflym, yn agored, yn deg, ac yn onest; bydd modd i chi fynegi eich pryderon ac ni fyddwn yn dangos rhagfarn yn eich erbyn.

I gael gweld copi o Weithdrefn Gwynion Sir y Fflint, neu i drafod pryderon, cysylltwch â **Rheolwr y Tîm Taliadau Uniongyrchol** yn gyfrinachol ar **01352 701101.**

Os, ar y llaw arall, rydych yn dymuno canmol aelod o'r tîm ar unrhyw agwedd o'r gefnogaeth a ddarparwyd i chi, caiff ei werthfawrogi'n arw, ac mae'n ein helpu ni i wybod ein bod yn gwneud pethau'n gywir.

I ddarparu adborth, gofynnwch i aelod o'r tîm i ddarparu ffurflen adborth. Gellir cwblhau hon yn ddienw, os oes well gennych. Rydym yn gweithredu ffurflen adborth ddigidol hefyd, y gellir ei chanfod drwy ddilyn y ddolen sydd wedi'i hatodi i unrhyw neges e-bost gennym.

O bryd i'w gilydd, efallai byddwn yn cysylltu â chi i ofyn am y gwasanaeth rydych wedi'i dderbyn, er mwyn sicrhau ein bod yn cynnal safonau uchel, gwneud gwelliannau a sicrhau eich bod yn derbyn gwasanaeth o safon yn gyson.

## *Manylion Cyswllt*


Y Gwasanaeth Cefnogi Taliadau Uniongyrchol

**Rhif Ffôn:** 01352 701100

**E-bost:** dp.support@flintshire.gov.uk

**Cyfeiriad:**

Gwasanaethau Cymdeithasol Sir y Fflint
Tŷ Dewi Sant
Parc Dewi Sant
Ewlo
CH5 3XT